

Eich Newyddlen

Newyddlen y tenantiaid ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych



Rhifyn pump - Hydref 2019


Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw - Beth nesaf?

Roedd canlyniadau arolwg STAR 2018-19 yn dangos bod gwaith trwsio a chynnal a chadw yn un o'ch prif flaenoriaethau o hyd fel tenant Tai Sir Ddinbych.

Fel rhan o'n hymgyrch 'Dywedoch chi, gwnaethom ni', fe wnaethon ni gynnal nifer o sesiynau galw heibio dros yr haf a rhoi gwybodaeth ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod i chi am rai o'r gwelliannau yr hoffem eu cynnig. Nod y gwelliannau hyn yw moderneiddio ein dull o ddarparu ein gwasanaeth trwsio, er enghraifft, hoffem gyflwyno amseroedd penodol ar gyfer apwyntiadau sy'n eich siwtio chi.

Os na chawsoch chi gyfle i ddod i un o'n sesiynau, mae amser o hyd i roi eich barn i ni drwy ymweld â https://www.surveymonkey.co.uk/r/dyrannu_apwyntiadau_atgyweirio. Cewch y cyfle hefyd i ennill un o ddwy daleb £50 neu un o ddau docyn teulu SC2! (Ar gael i denantiaid Tai Sir Ddinbych yn unig. Mae telerau ac amodau'n gymwys ac mae manylion llawn ar gael gyda'r arolwg.)

I gael rhagor o wybodaeth am beth fydd yn digwydd nesaf, gweler tudalen 11.



Natur er Budd Iechyd

Mae ein tenantiaid a'n cymunedau wedi cael haf llawn dop o weithgareddau a digwyddiadau anhygoel i wella eu hiechyd a'u lles. I weld beth rydyn ni i gyd wedi bod yn ei wneud, **ewch i dudalen 6.**

Rhaglen Fuddsoddi 2019-20

Mae gennym nifer o waith wedi'i gynllunio yn digwydd dros y gaeaf, gan gynnwys cynlluniau gorchuddiol, creu waliau ceudod ac uwchraddio ceginau / ystafelloedd ymolchi. I gael rhagor o wybodaeth, **ewch i dudalen 14.**

Ein haddewid - Gwneud safiad

Yn nhymor y gwanwyn 2019, gwnaethom addewid i ddarparu cefnogaeth i bobl sy'n mynd drwy gamdriniaeth ddomestig. Rydym yn gweithredu pedwar ymrwymiad â ffocws yn Tai Sir Ddinbych. I gael rhagor o wybodaeth, **ewch i dudalen 12.**



Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities

www.taisirddinbych.co.uk
www.denbighshirehousing.co.uk

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



Yn y rhifyn hwn

Tai Sir Ddinbych:

Cyflwyniad gan Geoff Davies

Cyflwyniad gan Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych (DTARF)

Rhaglen Arbed Ynni

Atal cyddwysiad y gaeaf hwn

Dod i'ch adnabod chi'n well

Dod i'n hadnabod ni

Tudalen 3

Tudalen 3

Tudalen 7

Tudalen 9

Tudalen 12

Tudalen 16

Buddsoddiad a Gwelliannau:

Profion Trydanol

Gwelliannau i ardal chwarae

Y diweddaraaf ar Drwsio a Chynnal a Chadw

Cynlluniau Adeiladau Newydd

Rhaglen Fuddsoddi 2019

Tudalen 7

Tudalen 10

Tudalen 11

Tudalen 13

Tudalen 14

Cymuned a Phobl:

Beth sydd wedi bod yn digwydd yr haf hwn?

Cadw'n gynnes y gaeaf hwn – Cyngor ar Fudd-daliadau Gwresogi

Gwneud safiad

Credyd Cynhwysol – rheoli eich arian

Eich Cymuned Leol

Lansiad Gwobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych mis Mai 2020

Tudalen 6

Tudalen 8

Tudalen 12

Tudalen 14

Tudalen 15

Tudalen 18

Amgylcheddol:

Prosiect Natur er budd lechyd

Tudalen 4-5

Bwrdd Newyddion



Teleofal

0300 123 3068

Gwasanaethau Cwsmeriaid
01824 706000

Rhif Argyfwng y tu allan i
oriau swyddfa
0300 123 3068

Llinell Llifogydd
0345 988 1188

Rhif Argyfwng Nwy
0800 111 999

Rhif Argyfwng Trydan
0800 404 090

Galw lechyd
Cymru
0845 46 47



Neges gan Geoff Davies

Swyddog Arweiniol Tai Sir Ddinbych

Croeso i rifyn diweddaraf eich cylchlythyr. Gobeithio y bydd yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol i chi.

Rydym wedi cynnal nifer fawr o ddigwyddiadau gwych dros yr haf, ac mae ein cymunedau a phawb a gymerodd ran wedi eu mwynhau. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle gwych i ni roi gwybod i chi beth sy'n digwydd yn eich cymunedau a gyda Tai Sir Ddinbych, yn ogystal â rhoi gwybod i ni beth sy'n bwysig i chi. Hoffwn gymryd y cyfle i ddweud diolch yn fawr iawn i'r holl staff sy'n gweithio mor galed i drefnu'r digwyddiadau hyn, ac i bob un a ddaeth i wneud y digwyddiadau mor llwyddiannus.

Fel y byddwch chi'n gwybod o newyddlen y gwanwyn, rydym wedi newid y ffordd y mae ein Swyddogion Tai yn gweithio. Mae'r newidiadau hyn yn caniatáu i'n timau reoli nifer llai o gartrefi, felly gallwn eich cefnogi a dod i'ch adnabod yn well. Mae gwybodaeth am eich swyddog tai ar gael ar dudalennau 16-17.

Rydym wedi buddsoddi dros £1.1m yn ein hardaloedd chwarae dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan sicrhau bod gan blant yn ein cymunedau leoedd diogel o ansawdd uchel i ddysgu trwy chwarae. Mae ein hymrwymiad i wella'ch cartrefi a'ch amgylchedd yn brif flaenoriaeth ac rydym yn buddsoddi mewn cynlluniau amgylchynu pellach, cynlluniau effeithlonrwydd ynni yn ogystal â gwelliannau mewnol i geginau ac ystafelloedd ymolchi.

Ar ôl llwyddiant ein Gwobrau Tenantiaid Tai yn Sir Ddinbych ym mis Mai, rwy'n falch iawn o gyhoeddi ein bod eisoes yn cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf. Rydym yn ystyried nifer o gategoriâu newydd ac ni allwn aros i weld pwy sydd wedi'i enwebu y tro hwn. Mae'r wybodaeth am y gwobrau sydd ar ddod ar dudalen 18 a byddwn yn eu lansio'n swyddogol yn y Flwyddyn Newydd.

Yn ôl yr arfer, os oes gennych unrhyw sylwadau am y newyddlen neu ein gwasanaethau yn gyffredinol, cofiwch gysylltu. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am yr hyn yr hoffech ei weld yn y newyddlen, rhwch wybod i ni.

Neges gan ffederasiwn tenantiaid a phreswylwyr Sir Ddinbych



Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych
Denbighshire Tenants and Residents Federation

Mae Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych yn monitro gwasanaethau megis cynnal a chadw tiroedd, cyfathrebu, marchnata a thrwsio tai, sydd wedi gwella'n sylweddol ers i'r fîm tai newydd fod yn weithredol. Mae Tai Sir Ddinbych yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni o ran datblygiadau tai, megis adeiladau newydd a gwelliannau. Pe bai mwy o denantiaid yn ymuno â Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych, gallem fod hyd yn oed yn fwy gweithredol. Mae ein cyfarfod nesaf ar 21 Tachwedd.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym wedi bod yn rhan o'r gwaith gwella, trwsio a chynnal a chadw arfaethedig. Mae'r adborth wedi bod yn wych hyd yma a bydden ni yn eich annog i gymryd rhan yn yr arolwg i ddylanwadu ar newidiadau. Mae cyfle

hefyd i gael eich cynnwys mewn raffl fawr, felly pob lwc!

Os hoffech ymuno â Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych mae croeso i chi wneud hynny. Gall unrhyw un ddod i gyfarfod fel llais cymunedol

Am ragor o wybodaeth ffoniwch John Woodward ar 01745 799083 neu e-bostiwch johnwoodward@hotmail.co.uk.

Rydym wedi lansio ein tudalen Facebook newydd @ DTARF ym mis Hydref ac yn gobeithio y gallwch chi i gyd ein dilyn i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn rydyn ni'n ei wneud!

Edrychwn ymlaen at weld mwy o wynebau newydd yn y cyfarfodydd, felly dewch draw i ymuno â ni yn fuan.

Natur er budd iechyd

Dros yr haf, mae'r ffin Natur Er Budd Iechyd wedi bod yn brysur yn cefnogi cymunedau i wella eu hiechyd a'u lles drwy gael mynediad at y mannau gwyrdd bendigedig sydd gennym ar ein stepen drws.

Mae'r prosiect hwn, a noddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yn cael ei arwain gan Tai Sir Ddinbych a'i ddarparu mewn partneriaeth ag AHNE Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu mewn pedair ardal beilot sef Prestatyn, y Rhyl, Corwen a Llangollen.

Mae'r sesiynau wedi cynnwys -

- Teithiau i Nantclwyd y Dre, Parc Gwledig Tŷ Mawr, Brenig, ac ymweld â'r môr-wenoliaid bach ym Mhrestatyn.
- Gwneud ffelt gyda'r artist Ticky Lowe, gwehyddu helyg gyda'r artist Mandy Cottes,
- Sesiynau byw yn y gwyllt yn y coed, lle cafodd plant a theuluoedd y cyfle i wneud cuddfannau a choginio bara yn y gwyllt.
- Cyfeiriannu, gwneud siarcol, teithiau cerdded ystlumod yn hwyr y nos, sylu ar y sêr, cerdded Nordig, ymarfer cadair freichiau a thasgau cadwraeth.
- Datblygu gardd gymunedol newydd yng Nghanolfan Phoenix, Y Rhyl, gwella rhandiroedd cymunedol yng Nghorwen, ac ardal dyfu gymunedol ym Mhengwern Llangollen.



Sylw i Llangollen - Ymweliadau VIP!

Yn ystod yr haf, ymwelodd VIP's â'n canolfan gymunedol yn Llangollen!

Ym mis Gorffennaf, ymwelodd Ken Skates AC i weld y gwaith gwyh y mae Cyfeillion Pengwern wedi bod yn ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ystod ei ymweliad, lansiodd hefyd y ffilmiau hyrwyddo byr yn ffurfiol ar gyfer rhaglen Natur Er Budd Iechyd ar gyfer De Sir Ddinbych. Yn y digwyddiad siaradodd Howard Sutcliffe o wasanaethau Cefn Gwlad a Geoff Davies o Tai Sir Ddinbych am lwyddiant y bartneriaeth wych hon a diolchodd i bawb a fu'n rhan o'r gwaith ac yn rhoi eu hamser neu eu cyllid ar gyfer y prosiect hwn

Ym mis Awst lansiodd Susan Elan Jones AS brosiect cyfnewid gwisg ysgol yn swyddogol dan arweiniad Cyfeillion Pengwern wrth iddi gwrdd â thrigolion lleol. Arweiniodd Cyfeillion Pengwern, a ymunodd â Phartneriaeth Gymunedol De Dinbych a Chyngor Dinasyddion Sir Ddinbych, y prosiect cyfnewid gwisg ysgol. Roedd y prosiect hwn yn llwyddiant mawr ac yn boblogaidd iawn ymysg y gymuned leol.





Mae gennym nifer o sesiynau Natur er budd lechyd wythnosol dros y gaeaf, gan gynnwys:

- Canolfan NI Corwen – Dydd Iau 10am – 1pm
- Canolfan Gymunedol Pengwern Llangollen – Dydd Mercher, 10am – 1pm
- Y Rhyl - Glan Morfa – Dydd Mawrth 10am – 1pm
- Porth Morfa Prestatyn – Dydd Iau 10am – 1pm

I gael rhagor o wybodaeth, mae pob grŵp yn defnyddio eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol eu hunain i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.


Gobeithiwn eich gweld chi yno neu cysylltwch ag emily.reddy@sirddinbych.gov.uk



Mae Cyfeillion Pengwern hefyd wedi bod yn brysur yn gweithio mewn partneriaeth â Thai Sir Ddinbych drwy'r haf. Maent wedi bod yn darparu cyfleoedd i drigolion gymryd rhan ym mywyd cymunedol lleol, gan gynnwys sefydlu clwb brecwast cymunedol wythnosol yn ddiweddar. Bob bore Mercher, gall y gymuned leol alw i mewn am sgwrs a chael mynediad at ystod o gyfleoedd ehangach sy'n digwydd yn eu cymuned. Mae'r clwb brecwast wedi bod mor llwyddiannus ac felly mae'r ganolfan yn cael cegin newydd!

Canolfan Phoenix, Prosiect Mosaig y Rhyl

Mae trigolion a gwirfoddolwyr yng nghanolfan Phoenix ar Marsh Road, y Rhyl wedi bod yn brysur yr haf hwn yn cwblhau mosaig, a fydd yn cael ei roi yng ngardd y ganolfan. Gweithiodd y grŵp ochr yn ochr ag artist lleol; daeth Julie o illuminarte am 8 wythnos a gweithio ochr yn ochr â swyddogion o'r prosiect Natur er budd lechyd. Lluniodd y grŵp eu dyluniad eu hunain i ymgorffori logo Phoenix, cefn gwlad a thraeth. Mae'r mosaig gorffenedig yn edrych yn fendigedig ac yn glod i bawb a gymerodd ran.



Beth ydyn ni wedi bod yn ei wneud yr haf hwn!

Mae cymunedau yn Ninbych a'r Rhyl wedi cael llawer o hwyl deuluol dros yr haf.

Roedd ein digwyddiadau yn cynnwys cyngor am ddim ar arbedion ynni, Credyd Cynhwysol a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, yn ogystal â gweithgareddau i bobl ifanc gan gynnwys sgiliau syrcas, celf a chrefft a gwneud smwddis. Yn ystod y digwyddiadau, roedd ein sioe deithiol trwsio a chynnal a chadw yno i drafod ein newidiadau arfaethedig i'r broses apwyntiadau trwsio. Gobeithio y cawsoch chi i gyd gymaint o hwyl â ni!



Mae gennym nifer o ddigwyddiadau ar y gweill ar gyfer Hydref 2019 o hyd, gan gynnwys themâu Calan Gaeaf a Nadolig, yn cynnwys Dathlu Oed. Bydd Celfyddydau Sir Ddinbych yn gweithio gyda ni i gynnal cyfres o sesiynau Crefft Nadolig misol fel rhan o'r fenter Dathlu Oed. Cynhelir sesiynau yn ein cyfaddiladau llety gwarchod yn cynnwys Llygadog, Trem Y Foel, Cysgodfa, Llys Y Felin, Maes Emlyn, Maes Escob, Cofeb Ryfel.

I gael rhagor o wybodaeth am sesiynau sydd ar ddod yn eich ardal, cysylltwch â ni ar 01824 706000 neu tai@sirdinbych.gov.uk

Y wybodaeth ddiweddaraf ar brofi trydanol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Mae Tai Sir Ddinbych yn falch o gyhoeddi ein bod wedi cyflogi Peiriannydd Profi Trydanol pwrpasol yn ddiweddar. Mae'r swydd wedi'i chreu i sicrhau bod eich cartrefi yn cael archwiliad trydanol gwifrau sefydlog rheolaidd bob 5 mlynedd. Mae hyn er mwyn cynnal diogelwch a chywirdeb y gwifrau yn eich cartref.

Ar hyn o bryd rydym yn blaenoriaethu arolygiadau yn nhrefn dyddiadau, yn dibynnu ar bryd y cafodd eich cartref ei ailweirio ddiwethaf. Pan fydd angen i'ch cartref gael ei archwilio, byddwn yn eich hysbysu ymlaen llaw pan fydd ein peiriannydd yn eich ardaloedd chi. Bydd yr archwiliad yn cymryd tua 2 awr. Bydd ein peiriannydd yn:

- Gwirio cyflwr y gwifrau yn eich cartref, gan gynnwys yr uned defnyddwyr ac unrhyw socedi / allfeydd mellth.
- Uwchraddio'ch larymau mwg / gwres a charbon monocsid os oes angen.
- Atgyweirio unrhyw osodiadau trydanol uniongyrchol sy'n beryglus.
- Rhestru unrhyw atgyweiriadau nad ydynt yn rhai brys a fydd yn cael eu cwblhau yn ystod ail ymweliad gennym ni neu gontractwr cymeradwy.

Mae'r archwiliadau hyn yn cael eu cwblhau i sicrhau bod eich cartref yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth ac er eich diogelwch eich hun. Felly, byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth gyda chaniatáu inni gael mynediad i'ch cartref i gwblhau'r gwiriadau.

Ein rhaglen effeithlonrwydd ynni

Mae Tai Sir Ddinbych wedi ymrwmo i wella effeithlonrwydd ynni eich cartref, lleihau ein hól troed carbon a lleihau eich biliau tanwydd. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar fuddion technolegau adnewyddadwy ac arloesol i'n helpu i gyflawni hyn.

Er 2016, rydym wedi bod yn disodli hen foeleri nwy cyfunol gyda'r boeleri effeithlonrwydd uchel diweddaraf, sydd wedi ategu ein rhaglen wella waliau ceudod ac inswleiddio atig bresennol.

Ein ffocws dros y 12 mis nesaf fydd ystyried a datblygu rhaglen waith a fydd yn parhau i wella sgôr ynni eich cartrefi. Rydym yn rhoi pwyslais ar sut y gallwn dargedu a gwella ein cartrefi sydd oddi ar rywdaith y prif gyflenwad nwy, ac sydd â'r sgôr ynni gwaethaf ar hyn o bryd.

Rydym wedi cwblhau dadansoddiad ynni llawn o'r stoc dai yn ddiweddar, a fydd yn ein helpu i ddatblygu a blaenoriaethu ein cynlluniau gwella, gan gynnwys datrysiadau gwresogi adnewyddadwy, technoleg paneli solar ac inswleiddio waliau allanol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadw'n gynnes y gaeaf hwn – cyngor ar fudd-daliadau gwresogi

Oeddech chi'n gwybod bod nifer o daliadau, cyngor a chefnogaeth ar gael ichi dros fisoedd y gaeaf? Dyma ychydig o bethau i'w hystyried:

Taliad Tanwydd y Gaeaf

Os cawsoch eich geni ar neu cyn 5 Ebrill 1954, fe allech chi gael rhwng £100- £300 i'ch helpu i dalu'ch biliau gwresogi. Fel rheol, byddech chi'n cael Taliad Tanwydd Gaeaf yn awtomatig os ydych chi'n gymwys a'ch bod chi'n cael Pensiwn y Wladwriaeth neu fudd-dal nawdd cymdeithasol arall (nid Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth Gyngor, Budd-dal Plant na Chredyd Cynhwysol). Os nad ydych wedi derbyn taliad yn awtomatig, ac yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yna mae'n werth gwneud hawliad. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 0800 731 0160. Y dyddiad cau ar gyfer hawlio'r taliad hwn ar gyfer y gaeaf hwn yw 31 Mawrth 2020.

Taliad Tywydd Oer

Gallech chi gael taliad o £ 25 am bob cyfnod o 7 diwrnod o dywydd oer iawn rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth. Rhaid i gofnod y tymheredd cyfartalog neu'r rhagolygon ar gyfer eich ardal fod yn sero gradd neu lai am 7 diwrnod yn olynol. Os ydych chi'n cael un o'r budd-daliadau isod, yna dylai'r taliad hwn ddod i chi yn awtomatig.

- Credyd Pensiwn
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Cynhwysol
- Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais

Os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n gymwys, ond nad ydych chi'n derbyn eich taliad, dywedwch wrth eich swyddfa Canolfan Gwaith a Mwy. Neu, os ydych chi'n cael Credyd Cynhwysol, yna mewngofnodwch i'ch cyfrif ac ychwanegu nodyn at eich cyfnodolyn.

Cynllun Gostyngiad Cartref Cynnes

Gallech chi gael £140 oddi ar eich bil trydan o dan y cynllun hwn. Nid yw'r arian yn cael ei dalu i chi, mae'n ostyngiad untro ar eich bil trydan rhwng mis Medi a mis Mawrth. Efallai y gallwch gael y gostyngiad ar eich bil nwy yn lle os yw eich cyflenwr yn darparu nwy a thrydan i chi.

Mae dwy ffordd o gymhwyso ar gyfer y cynllun hwn:

- Rydych yn cael yr elfen Credyd Gwarant o Gredyd Pensiwn, a elwir yn 'grŵp craidd', neu
- Rydych ar incwm isel ac yn bodloni meini prawf eich cyflenwr ynni ar gyfer y cynllun, a elwir y 'grŵp ehangach'.

Cysylltwch â'ch cyflenwr i ddysgu mwy ac i weld a ydynt yn rhan o'r cynllun.

Cynllun Tanwydd Consesiwn Cenedlaethol

Gallech chi gael tanwydd solet neu lwfans arian parod am ddim os ydych chi'n gyn-weithiwr i'r Bwrdd Glo Cenedlaethol (NCB) neu Gorfforaeth Glo Prydain (BCC). Mae angen i chi fod yn gymwys i gael y lwfans tanwydd trwy'r Cynllun Tanwydd Consesiwn Cenedlaethol (NCFS), a dim ond os ydych chi eisoes yn cael tanwydd trwy'r cynllun y gallwch chi gael y lwfans arian parod. I weld a ydych chi'n gymwys, cysylltwch â'r Cynllun ar 0345 759 0529.

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r budd-daliadau gwresogi hyn, ewch i www.gov.uk neu siaradwch â'ch swyddog tai ar 01824 706000.





Atal lleithder ac anwedd y gaeaf hwn

Rŵan bod y tywydd yn oeri, byddwn yn gweld cynnydd yn yr amgylchiadau sy'n achosi anwedd mewn cartrefi.

Achosir anwedd gan leithder yn yr aer sy'n setlo ar wyneb oer. Gall dyfu yn llwydni du ar waliau a nenfydau, yn ogystal ag ar ddodrefn ac eiddo.

Gall llwydni du fod yn niweidiol i'ch iechyd a gall achosi problemau resbiradol a chyflyrau iechyd eraill. Mae'n bwysig sychu unrhyw anwedd oddi ar ffenestri a waliau cyn gynted ag y mae'n ymddangos. Os bydd llwydni du yn ymddangos, dylid glanhau hwn cyn gynted ag y bo modd gyda channydd gwanedig.

Un o achosion mwyaf cyffredin lleithder cynyddol yw sychu dillad ar y rheiddiaduron. Gall hyn gynyddu'n sylweddol fodolaeth sborau llwydni yn yr awyr, y gellir eu cysylltu â llawer o broblemau iechyd anadlol a phroblemau iechyd eraill.

Gellir osgoi anwedd trwy sicrhau bod tymheredd cyson yn eich cartref a digon o awyru.

Rydym yma i helpu

Os ydych chi'n feimlo bod gennych broblem gyda lleithder neu anwedd, rhowch wybod i ni ar 01824 706000 neu anfonwch e-bost at tai@sirddinbych.gov.uk, fel y gallwn ymchwilio i'r sefyllfa. Weithiau, nid mater trwsio a chynnal a chadw ydyw, felly mae'n bwysig dilyn y cyngor a amlinellir yma.

Er mwyn helpu i osgoi anwedd mae angen i chi:

Ystafelloedd

Ceisiwch osgoi gwresogi ystafelloedd penodol yn eich cartref yn unig gan y gall hyn greu'r amgylchiadau perffaith ar gyfer anwedd wrth i aer cynnes a lleithder deithio a dod o hyd i arwynebeddau oer i anweddau arnynt.

Ystafell Wely

Mae pobl yn cynhyrchu cryn dipyn o leithder. Er enghraifft, felly, gall anwedd ffurfio yn ystod y nos mewn ystafell wely oer am fod pobl yn cysgu yno.

Cegin

Yn yr un modd, dylech agor ffenest neu ddefnyddio gwyntyll echdynnu os oes un pan fyddwch yn cynhyrchu stêm wrth goginio.

Peiriant Sychu Dillad

Wrth sychu dillad yn y peiriant dylech sicrhau bod y fent yn gweithio'n iawn.

Awyru

Sicrhewch fod eich cartref wedi ei awyru a bod llif cyson o aer drwodd i rwystro anwedd rhag ffurfio. Agorwch fymryn ar ffenestri a pheidwch â rhwystro fentiau.

Ystafell Ymolchi

Mae awyru yn neilltuol bwysig pan fyddwch yn cael bath neu gawod, felly agorwch ffenest neu ddefnyddio gwyntyll echdynnu os oes un.

Sychu Dillad

Os oes modd, dylech geisio sychu dillad yn yr awyr agored bob amser, neu ddefnyddio sychwr dillad mewn ardal wedi'i awyru sydd heb ei wresogi os oes angen i chi wneud hyn dan do.

Gwresogi

Mae'n bosib y gwelwch fod cael y gwres ymlaen dros gyfnodau hirach gan ddefnyddio thermostad i'w reoli yn rhatach na'i ddefnyddio yn ysbeidiol i gynhesu ystafell yn gyflym, a bod hyn hefyd yn lleihau'r perygl o anwedd.



Ydych chi wedi bod ar antur yn un o'n hardaloedd chwarae newydd yr haf hwn?



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr haf hwn gwelwyd gwelliant parhaus i dair ardal chwarae arall yn ein cymunedau, Maes Hafod, Rhuthun; Sholing Drive, Y Rhyl a Godre'r Coed, Cynwyd. Rydym wedi gweld nifer o blant yn dysgu trwy chwarae ac mae'n wych gweld ein hardaloedd chwarae'n brysur unwaith eto, yn enwedig yn ystod ein diwrnod hwyl haf diweddar ym Maes Hafod, Rhuthun!

Rydym wedi buddsoddi dros £1.1m yn ein hardaloedd chwarae a'n rhaglen dirlunio dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae gweithio mewn partneriaeth â HAGS wedi ein galluogi i ddisodli hen fannau chwarae gydag offer modern ac arloesol sydd wedi'u cynllunio i fod yn ddeniadol i ystod eang o blant, yn ogystal â bod yn gwbl gynhwysol lle bo hynny'n bosibl.

Fe wnaethon ni lwyddo hefyd i gael nawdd ariannol i helpu tuag at greu parc chwarae newydd yn Rhuallt, sydd i gael ei leoli yn yr hen gae ysgol y tu ôl i Ddyffryn Teg. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ymgynghori gyda'r gymuned leol i ddarganfod beth fydden nhw'n hoffi ei weld yn y parc ac yn y manau gwyrdd o'i amgylch. Nid oedd darpariaeth chwarae ar gyfer plant yn yr ardal leol ac mae'r gymuned wedi bod eisiau ardal chwarae am amser hir iawn i'r plant yn eu cymuned. Mae wedi bod yn wych gweld yr ardal chwarae newydd hon yn cael ei defnyddio gan bawb yn y gymuned leol.

Rŵan bod yr ardaloedd chwarae hyn ar agor, byddwn yn eu harchwilio'n gyson ac yn trwsio unrhyw ddiffygion ar unwaith er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn llefydd diogel, glân a deniadol ar gyfer y dyfodol.





Newidiadau i waith trwsio a chynnal a chadw

Roedd canlyniadau arolwg STAR 2018-19 yn dangos mai gwaith trwsio a chynnal a chadw yw un o'r prif flaenoriaethau i chi o hyd. Fel rhan o 'Dywedoch chi, gwnaethom ni', gwnaethom gynnal sesiynau galw heibio dros yr haf, gan gwblhau arolygon ar waith trwsio er mwyn rhoi gwybod i chi am rai gwelliannau yr hoffem eu cynnig. Bydd y gwelliannau hyn yn moderneiddio ein dull o fynd ati i ddelio a gwaith atgyweirio yn eich eiddo. Er enghraifft, byddem yn hoffi cyflwyno amseroedd apwyntiadau wedi'u trefnu i'ch siwtio chi.

Mae adborth hyd yma yn dangos y canlynol:

- Mae'n well gan 96% o denantiaid i'n cynigion gyflwyno amserlen o apwyntiadau sy'n addas i chi.
- Hoffai 100% o denantiaid neges destun i roi gwybod pa mor bell i ffwrdd ydyn ni ar ddiwrnod yr apwyntiad.

- Mae 40% o denantiaid yn hapus i gwblhau arolwg boddhad ar adeg y gwaith trwsio.

Byddwn ni rŵan yn adolygu'r holl adborth ac yn penderfynu ar y cam nesaf yn y Flwyddyn Newydd. Byddwn hefyd yn adolygu ein blaenoriaethau atgyweirio fel y gallwn ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon wedi'i gynllunio. Cadwch eich llygaid ar agor!

Os nad oeddech yn gallu dod i'n sioeau teithiol neu sgwrsio ag un o'n fîm atgyweirio, hoffem ni wybod beth yw eich barn am ein cynigion o hyd.

Ewch i https://www.surveymonkey.co.uk/r/dyrannu_apwyntiadau_atgyweirio i ddysgu mwy.

Sut y gallwch chi gymryd rhan?



Rydym am i'n holl denantiaid:

- fynegi barn am sut y darperir ein gwasanaethau,
- gweithio mewn partneriaeth gyda ni i barhau i wella cartrefi a chymunedau
- gallu rhoi adborth i ni er mwyn gwella ein gwasanaethau, ac

Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn, rydym yn awyddus i glywed gennych. Os hoffech chi wirfoddoli a chymryd rhan, mae gennym ni nifer o gyfleoedd a gweithgörau yr ydym yn eu hystyried ar gyfer y dyfodol, yn cynnwys:

- Newyddlen olygyddol
- Adborth gan denantiaid
- Cynhwysiant digidol
- Cynhwysiant ariannol
- Datblygiad cymunedol

Os ydych chi'n teimlo bod gennych unrhyw sgiliau a fyddai o fudd i'n hymrwymiad i fuddsoddi a gwella ein cymunedau, neu os ydych am ddatblygu sgiliau newydd, cysylltwch â ni ar 01824 706000 neu tai@sirddinbych.gov.uk

Addewid i wneud safiad

Cam-drin domestig yw un o'r problemau mwyaf rydyn ni'n eu hwynebu. Yn gynharach eleni, gwnaeth Tai Sir Ddinbych addewid i gefnogi pobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig. Mae cyfran fawr o gam-drin domestig yn digwydd heb adroddiad ohono, ond mae astudiaethau'n awgrymu bod miliynau o bobl yn cael eu heffeithio bob blwyddyn. Yn drasig, caiff dwy ferch eu lladd bob wythnos gan eu partner neu gynbartner.

Mae ein haddewid yn canolbwyntio ar bedwar ymrwymiad yr ydym yn cytuno i'w gwneud i ddarparu cefnogaeth i bobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhoi ar waith ac ymgorffori polisi i gefnogi ein tenantiaid sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig.
- Sicrhau bod gwybodaeth am gymorth cam-drin domestig cenedlaethol a lleol ar gael ar ein gwefan a lleoedd perthnasol eraill fel ei bod yn hygyrch.
- Diwygio neu greu polisi AD, i gefnogi staff a allai fod yn profi camdriniaeth ddomestig.
- Penodi cefnogwr, ar lefel uwch, i gymryd cyfrifoldeb am yr hyn rydyn yn ei wneud i gefnogi pobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig.

I gael gwybod mwy am ein haddewid, ewch i - <http://archifau.sirddinbych.gov.uk/>



Llinellau cymorth defnyddiol:

Mae'r llinell gymorth Trais Domestig

Cenedlaethol yn llinell gymorth gyfrinachol rhad ac am ddim a gynhelir gan Women's Aid a Refuge ar gyfer unrhyw un sy'n profi trais domestig. Mae ar gael 24 awr y diwrnod, saith niwrnod yr wythnos. **Gallwch gysylltu â nhw ar 0808 2000 247** neu ymweld â www.nationaldomesticviolencehelpline.org.uk

Mae **Women's Aid** yn darparu ystod o wybodaeth a chefnogaeth ar gam-drin domestig, gan gynnwys cefnogaeth i bobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig a phobl sy'n poeni y gallai eraill fod. **Gallwch gysylltu â nhw ar 0808 80 10 800** neu ymweld â www.welshomensaid.org.uk

Dod i'ch adnabod chi'n well

Mae'n siŵr eich bod wedi sylwi bod Swyddog Tai eich ardal o bosib wedi newid. Mae'r newidiadau hyn wedi digwydd gan ein bod am i'n staff ymgysylltu ag ardal lai, fel y gallant ddod i'ch adnabod chi a'r ardal lle rydych chi'n byw yn well.

Rydyn ni eisiau gallu cefnogi pobl yn gynharach, yn enwedig os oes angen unrhyw help a chynghor gennym ni ar unrhyw un. Byddwn yn ymweld â'ch cartref yn rheolaidd, a byddwn yn rhoi gwybod ichi ymlaen llaw ein bod yn galw. Os byddwn yn cysylltu â chi ac nad oes unrhyw beth penodol i sgwrsio amdano, yna dylech edrych ar hyn fel galwad cwrteisi.



Yn ystod ein hymweliadau, efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth amdano chi a'ch teulu. Mae hyn yn ein helpu i ddod i'ch adnabod yn well, ystyried unrhyw beth pwysig sy'n effeithio arnoch chi neu'ch tenantiaeth a gwella ein gwasanaeth.

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw un arall heb i chi wybod. I gael mwy o wybodaeth am ein datganiad Preifatrwydd, cysylltwch â ni.



Cynlluniau adeiladau newydd

Yng nghylchlythyr y gwanwyn, dywedom wrthyhych am y cynnydd yr oeddem yn ei wneud o ran darparu 170 o gartrefi cyngor ychwanegol ledled y sir erbyn 2022.

Yn ystod yr haf, gwnaethom gwblhau'r gwaith o droi'r tŷ y gwnaethom ei brynu yn Ffordd Brighton, y Rhyl yn rhandai. Mae gan bob un o'r fflatiau ystafell wely ddwbl, llofa, cegin/ystafell fwyta ac ystafell ymolchi. Rydyn ni wedi gosod gwres canolog nwy yn y rhandai, fe wnaethon ni hefyd achub ar y cyfle i wella'r deunydd inswleiddio yn yr adeilad, ac maen nhw i gyd wedi cyflawni sgôr "C" am berfformiad ynni. Y rhandai hyn yw'r cartrefi cyngor newydd cyntaf i gael eu darparu yn y sir mewn dros 25 mlynedd a dim ond megis dechrau ydyn ni!



Rydym hefyd wedi bod yn ymgynghori ynghylch ein cynigion i adeiladu 22 o gartrefi cyngor newydd ar dir uwchben Tan y Sgubor yn Ninbych. Rŵan bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, byddwn yn cyflwyno cais Cynllunio ar gyfer y datblygiad ac os caiff ei gymeradwyo, bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd. Bydd y tai newydd yn cael eu hadeiladu i safon PassivHaus, sy'n golygu y bydd tymheredd cyfforddus y tu mewn trwy gydol y flwyddyn ac ychydig iawn o wres fydd ei angen arnynt yn y gaeaf.

Cefnogir y datblygiad hwn gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru trwy ei Rhaglen Tai Arloesol.

Rydym hefyd wedi bod yn edrych a allai safle'r hen lyfrgell yn Ffordd Llys Nant ym Mhrestatyn fod yn addas ar gyfer darparu rhandai hygrych. Rydyn ni wedi dod i'r casgliad y byddai hwn yn lleoliad da oherwydd byddai'n agos iawn at siopau a gwasanaethau canol tref. Dros yr ychydig fisoedd nesaf byddwn ni'n dechrau gweithio ar y dyluniadau. Unwaith y bydd gennym wybodaeth fanylach am y datblygiad arfaethedig, byddwn yn gofyn i bobl am eu barn cyn i ni gyflwyno cais Cynllunio yn y Flwyddyn Newydd.



Wyddoch chi...?

Mae Tai Sir Ddinbych yma i helpu ac wedi ymrwymo i gynorthwyo â'r trawsnewid i Gredyd Cynhwysol.

Gallwn roi cymorth a chyngor gyda'r canlynol:



Cymorth digidol a mynd ar-lein



Cymorth gyda chyllidebu a rheoli eich arian



Gwneud cais am Ostyngiad Treth y Cyngor



Rheoli ôl-ddyled a rheoli tenantiaeth



Gwybodaeth am sefydliadau all ddarparu offer TG cost isel i'w ddefnyddio yn y cartref



Rheoli dyledion



Gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim



Mewn rhai amgylchiadau, gyda'ch caniatâd chi, efallai y byddwn yn eich cyfeirio i darparwyr eraill am gymorth. I gael rhagor o wybodaeth gallwch gysylltu â'r tim tai ar **01824 706000**.

Rhaglen fuddsoddi 2019-2020



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Erbyn diwedd y flwyddyn hon, byddwn wedi buddsoddi tua £1m mewn gwelliannau mewnol ar draws sawl ystâd yn y Rhyl. Bydd y gwaith gwella yn gweld sawl ystâd yn elwa o geginau newydd, ystafelloedd ymolchi newydd, gwaith uwchraddio trydanol a ffenestri Upvc newydd.

Ein rhaglen gwella allanol yw'r prosiect mwyaf eleni, gan ganolbwyntio ar sawl ystâd yn Ninbych, Trefnant a Rhuthun, buddsoddiad o tua £1.5m. Bydd oddeutu 115 eiddo yn cael to newydd, gwelliannau rendro a llinellau to newydd. Mae ein contractwr,

Gwasanaethau Adeiladu Cynaliadwy, eisoes wedi dechrau ar waith yn Ninbych a bydd yn symud i eiddo yn Nhrefnant a Rhuthun yn y Flwyddyn Newydd. Gallwn ni ddim aros i weld sut fydd y cyfan yn edrych a byddwn yn rhoi'r diweddaraaf i chi yn newyddlen y gwanwyn.





Eich cymuned leol

Gweledigaeth Tai Sir Ddinbych yw galluogi tenantiaid a'r gymuned ehangach i gael cyfleoedd i ymgysylltu a chymryd rhan. Mae gennym nifer o Gymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr Tai Sir Ddinbych, yn ogystal â chanolfannau cymunedol/adnoddau sy'n cefnogi hyn, gan gynnwys:

Cymdeithasau	Canolfannau Cymunedol/Adnoddau
Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych	Canolfan Phoenix, Y Rhyl
Marsh Association, Y Rhyl	Canolfan Maes Emlyn, Y Rhyl
War Memorial Court, Y Rhyl	Pengwern, Llangollen
Maes Emlyn Association, Y Rhyl	Maes Emlyn, Y Rhyl
Llys y Felin, Llanellwyr	Maes Esgob, Dyserth
Trem y Foel, Rhuthun	Llys y Felin, Llanellwyr
	Cysgodfa, Dinbych
	Trem y Foel, Rhuthun
	Llygadog, Corwen

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am ein Cymdeithasau Preswylwyr neu i archebu un o'n Canolfannau Cymunedol/Adnoddau, yna cysylltwch â Tai Sir Ddinbych ar 01824 706000 a gofynnwch am y Tîm Datblygu Cymunedol.

Mae gan nifer o'n canolfannau cymunedol weithgareddau a chlybiau sy'n croesawu aelodau newydd, felly dewch draw a chymryd rhan!

Canolfannau

- Llys Y Felin, Llanellwyr
- Maes Esgob, Dyserth
- Maes Emlyn, Y Rhyl
- Canolfan Phoenix, Y Rhyl
- Cysgodfa, Dinbych
- Trem Y Foel, Rhuthun
- Llygadog, Corwen

	Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
Bore	Ymarferion Cadair Freichiau 10:45am - 11:45am	Bore Coffi 10:00am – 11:00am	Ioga 10:00am - 12:00 canol dydd	Cyfeillion Dementia	Cyfarfod Misol (4ydd dydd Gwener bob mis)
	Bore Coffi			Clwb Cinio (Bob 6 wythnos)	Gardd Gymdeithasol
	Paned a Sgwrs			Galw Heibio / Clwb Diddordebau	Coleg

Prynhawn	Boccia	Natur er Budd Iechyd	Clwb Swyddi	Bingo 2:00pm - 4:00pm	Coleg
			Grŵp Celfyddydau	Paned a Sgwrs	Gardd Gymdeithasol

Gyda'r nos			Bingo 6:00pm - 9:00pm		Bingo
			Noson Ffilm 6:00pm - 9:00pm		

Swyddog Tai ar gyfer eich ardal chi

Ardal 1

Swyddog Tai: **Sian Frost**

**Yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol:*
Aled Avenue, Buckley Avenue,
Cefndy Road, Council Terrace, Ellis Avenue,
Fforddlas, Gwalia Avenue, Kingsley Avenue,
Marsh Road, Meredith Close,
Meredith Crescent, Plas Cyril, St Davids Square,
Victoria Road, Walford Avenue &
War Memorial Court.

Ardal 2

Swyddog Tai: **Chris Wynne**

**Yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol:*
Arfon Grove, Brookes Avenue, Cramer Court,
Frederick Street, Gwynfryn Avenue,
Llys Brunswick, Menai Avenue,
Rhydwen Close a Rhydwen Drive.

Ardal 3


Swyddog Tai: **Dawn Barracclough**


**Yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol:*
Bruton Park, Llys Glan Aber, Llys Morgan,
Llys Pen Y Cefndy a William Street.

Ardal 4

Swyddog Tai: **Louise Ellams**

**Yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol:*
Brynedydd Close, Colin Drive,
Eastville Avenue, Edgbaston Road, Elwy Drive,
Foel View Road, Geufon, Glyn Avenue,
Hen Afon Road, Holland Park Drive,
Howell Drive, Leonard Avenue, Llys Y Gerddi,
Lynwood Drive, Maes Emlyn, Mayfield Grove,
Mona Terrace, Oakville Avenue,
Pendre Avenue, Penymaes Avenue,
Prince Edward Ave, Princess Elizabeth Ave,
Ffordd Arfordir Y Rhyl, Sholing Drive,
The Crescent, Thornley Avenue,
Trellewelyn Road, Vale Road, Warren Road
a Weston Court.





Ardal 5

Swyddog Tai: **Carmel Rider**

Ardal 6

Swyddog Tai: **Dewi Proffitt**

Ardal 7

Swyddog Tai: **Louise Jones**

Ardal 8

Swyddog Tai: **Helen Stanfield**

**Dinbych, yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol:
Blaen Y Coed, Bron Y Crest, Bryn Seion,
Bryn Siriol, Rhodfa Clwyd, Cysgodfa,
Stryd Henllan, Llwyn Mair, Maes Yr Eglwys
a Pen Y Graig.*

Ardal 9

Swyddog Tai: **Linda Mair Jones**

**Dinbych, yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol:
Bod Nant, Bryn Garth, Bryn Stanley,
Lloyd Avenue, Lôn Llewelyn, Maes Hyfryd,
Maes Y Dre, Maes Y Goron, Maesglas,
Myddleton Avenue, Lôn Y Post
a Ffordd Y Ffair.*

Ardal 10

Swyddog Tai: **Claire Hall**

Ardal 11

Swyddog Tai: **Bethan Parry**



Gwobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych 2020

Oherwydd llwyddiant ein Gwobrau Tenantiaid Tai cyntaf yn Sir Ddinbych ym mis Mai eleni, lle daeth dros 80 o westeion i'n gwobrau mawreddog yn 1891, yn Y Rhyl, rydym yn falch iawn o gyhoeddi ein bod yn mynd i ddathlu eich cyflawniadau ym mis Mai 2020!



Rydym yn gweithio ar fanylion y gwobrau ar hyn o bryd ond rydym yn falch o ystyried nifer o gategoriâu newydd gan gynnwys:

- Prosiect Cymunedol y Flwyddyn
- Gardd Gymunedol y Flwyddyn
- Gardd Tenant y Flwyddyn
- Preswlydd Tai / Grŵp Cymunedol y Flwyddyn
- Gwasanaeth i Gwsmeriaid Tai Sir Ddinbych
- Tenant y Flwyddyn
- Tenant Ifanc y Flwyddyn
- Gwobr Tai Sir Ddinbych

Gwobrau newydd:

- Arwr Cymunedol y Flwyddyn - bydd y wobwr newydd hon yn dathlu unrhyw un sy'n gwneud rhywbeth sydd o fudd i un o'n tenantiaid neu gymuned lle mae ein tenantiaid yn byw.
- Cymydog da'r Flwyddyn - bydd y wobwr newydd hon yn dathlu unrhyw un sy'n gymydog da i un o'n tenantiaid.

Cadwch lygad yn y Flwyddyn Newydd pan fyddwn yn cyhoeddi'r gwobrau'n swyddogol ac yn esbonio sut i gystadlu. Yn y cyfamser, os ydych chi'n meddwl am unrhyw un i'w enwebu, rhowch wybod i ni a gallwn anfon enwebiad yn nes at yr amser!

